



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyhoeddwyd: Mawrth 2014

Cyfeirnod y ddogfen: 105A2014

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a baratôdd yr adroddiad hwn yn cynnwys Mike Usher, David Thomas, Mandy Townsend a Matthew Edwards.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Yr adroddiad hwn	7
Adran 1: Archwilio'r cyfrifon	8
Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y Bwrdd lechyd ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio	8
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus	13
Ni fydd y Bwrdd lechyd yn mantoli'r gyllideb yn 2013-14 oni bai bod camau sylfaenol yn cael eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol	13
Mae gan y Bwrdd lechyd nifer o faterion sylfaenol y mae angen iddo eu datrys er mwyn cryfhau ei drefniadau llywodraethu	17
Mae fy ngwaith archwilio perfformiad arall wedi nodi bod yna le i wella'r defnydd o adnoddau mewn meysydd penodol	24
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	29
Ffi archwilio	30
Risgiau archwilio ariannol	31

Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2013. Mae fy nghanfyddiadau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu yn y Bwrdd Iechyd yn deillio o'm gwaith ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig ac maent yn cynrychioli'r sefyllfa adeg cyflawni'r gwaith hwnnw ym mis Hydref 2013.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn caniatáu i mi gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) mewn perthynas ag archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol, yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae mwy o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân rwyf wedi'u cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu trafod a'u cywirdeb ffeithiol yn cael ei gytuno gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau rwyf wedi'u cyhoeddi i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
4. Mae cywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn wedi'i gytuno gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Cafodd ei gyflwyno i'r bwrdd mewn cyfarfod ar 27 Mawrth 2014 a darparwyd copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Yn dilyn ystyriaeth gan y bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
5. Mae'r negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio wedi'u crynhoi o dan y penawdau canlynol.

Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y Bwrdd Iechyd ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r rhain yn ymwneud â gwella rheolaethau mewnol ac arferion cyfrifyddu ar gyfer cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ac ymdrin â threfniadau prydlesu etifeddol sydd wedi'u trosglwyddo o gyrff rhagflaenol.
7. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad:
 - bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
 - bod gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
 - bod systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod yna rai gwendidau y mae i reolwyr weithredu arnynt.

-
8. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13, ar ôl derbyn £15 miliwn o gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2012, a sicrhau gostyngiad o £49.1 miliwn mewn costau. Er bod hyn yn gyflawniad sylweddol, nid oedd yn agos at yr arbedion o £74.5 miliwn oedd eu hangen ar gyfer y flwyddyn er mwyn cyrraedd y targed cynaliadwyedd ariannol rheolaidd, gan fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â nodi a chyflawni arbedion cost digonol.

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus

9. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae fy ngwaith ar gyfer yr Aseiad Strwythuredig wedi archwilio cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd a digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys llywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer mesur a gwella profiad cleifion/defnyddwyr. Mae adolygiadau archwilio perfformiad hefyd wedi'u cynnal o feysydd penodol o ddarparu gwasanaethau. O ganlyniad i'r gwaith hwn, rwyf wedi dod i'r casgliadau canlynol:

Ni fydd y Bwrdd Iechyd yn mantoli'r gyllideb yn 2013-14 oni bai bod camau sylfaenol yn cael eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol

10. Dyma'r canfyddiadau allweddol o'm hadolygiad o drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd:
- y llynedd, er i'r Bwrdd Iechyd fantoli'r gyllideb yn 2012-13, nodais nad oedd y dull a fabwysiadwyd yn gynaliadwy, gydag arbedion o £49.1 miliwn yn cael eu cyflawni o gymharu â tharged o £74.5 miliwn;
 - nid yw'r arbedion cost a ragwelwyd yn cael eu cyflawni ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £9 miliwn ar ddiwedd 2013-14, er iddo dderbyn £26 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru;
 - mae sefyllfa ariannol tymor canolig y Bwrdd Iechyd yn anodd iawn ac mae amryw o heriau sylweddol o'i flaen os yw am fantoli'r gyllideb yn 2014-15 a 2015-16;
 - cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei darged ariannol cyfalaf ar gyfer 2012-13, ond nododd y gwasanaeth Archwilio Mewnol gyfleoedd i wella ymhellach y gwaith o reoli cynllun cyfalaf Ailwampio Ysbyty Glan Clwyd.

Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o faterion sylfaenol y mae angen iddo eu datrys er mwyn cryfhau ei drefniadau llywodraethu

11. Ym mis Mehefin 2013, cyflwynais adroddiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar bryderon sylfaenol ynglŷn â threfniadau llywodraethu a rheoli'r Bwrdd Iechyd ac, o ganlyniad, gwnaed amryw o newidiadau ar lefel y bwrdd. Aeth y bwrdd ati i gydnabod yn gyhoeddus faint yr heriau sylfaenol sy'n ei wynebu, a rhoddodd gynllun gweithredu ar waith gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein hadroddiad ar y cyd.
12. Cynhaliodd fy nhîm adolygiad lefel uchel o gynnydd fel rhan o'm gwaith ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig. Er bod yna rai datblygiadau cadarnhaol, mae nifer o faterion sylfaenol a heriau sylweddol y mae angen i'r sefydliad eu datrys o hyd. Gan fod y materion mor sylfaenol, rwy'n cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser, a bydd fy nhîm ac AGIC yn gwneud gwaith dilynol ffurfiol ar ein hadolygiad ar y cyd yn 2014.
13. Yn ogystal, gwelais fod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ei drefniadau ar gyfer sicrhau dysgu o adborth yn annigonol, a'i fod wedi dechrau ceisio datblygu ffordd ymlaen. Mae angen gwneud gwaith pellach i gryfhau prosesau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad arall wedi nodi bod yna le i wella'r defnydd o adnoddau mewn meysydd penodol

14. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn ystod o ddangosyddion ansawdd, hygyrchedd ac effeithlonrwydd yn amrywio. Yn arbennig, mae perfformiad gwael mewn perthynas â heintiau a geir mewn ysbytai ac amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cael sylw brys.
15. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod agenda fyrdymor glir ar gyfer presgripsiynu gofal sylfaenol, gyda threfniadau ar gyfer rheoli cymorth presgripsiynu yn sail i ddull integredig ar draws sectorau. Fodd bynnag, mae'r diffyg cynllun strategol hirdymor ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cyfyngu ar y potensial i ganolbwyntio'r defnydd o adnoddau er mwyn sicrhau cyfleoedd clir i wella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd presgripsiynu.
16. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau cyson a pharhaus mewn perthynas â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio Technoleg a Rheoli Gwybodaeth blaenorol, er bod llai o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas ag argymhellion gwaith archwilio mewn meysydd eraill.
17. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

Adroddiad manwl

Yr adroddiad hwn

18. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Rhagfyr 2013.
19. Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
 - a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi'u defnyddio at y dibenion bwriedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
 - c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.
20. Mewn perthynas ag (c), mae'r sicrwydd, neu fel arall, yn deillio o'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
 - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a gyflawnwyd fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a'r defnydd o adnoddau;
 - hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
21. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Mae rhestr o'r rhain yn [Atodiad 1](#).
22. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
 - archwilio'r cyfrifon; a
 - trefniadau ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.
23. Mae [Atodiad 2](#) yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu costau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.
24. Yn olaf, mae [Atodiad 3](#) yn amlinellu'r risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol ar gyfer 2013 a sut aethpwyd i'r afael â nhw drwy gyfrwng yr archwiliad.

Adran 1: Archwilio'r cyfrifon

25. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13. Trwy'r datganiadau hyn mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifoedd arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan annatod o'r gwaith o ddangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.
26. Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi fynegi fy marn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
 - a ydynt wedi'u paratoi'n unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol o ran cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
27. Wrth gyflwyno'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs).
28. Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried pa mor ddigonol yw'r canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
 - systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y Bwrdd Iechyd ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio

Roedd cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

29. Cafodd datganiadau ariannol drafft 2012-13 (yn ymgorffori datganiadau ariannol Cronfa Risg Cymru hyd at 31 Mai 2012) eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau ar 3 Mai 2013. Roedd y datganiadau ariannol drafft wedi'u paratoi i safon uchel ac yn cael eu cefnogi gan bapurau gwaith cynhwysfawr. Roedd yna hefyd dystiolaeth glir bod y datganiadau ariannol wedi bod yn destun gwiriadau sicrhau ansawdd mewnol, gan gynnwys adolygiad dadansoddol cynhwysfawr ac adroddiad yn crynhoi'r prif benderfyniadau ac amcangyfrifon.
30. Mae fy nhîm wedi parhau i weithio'n agos gyda staff cyllid y Bwrdd Iechyd gydol y flwyddyn i sicrhau bod unrhyw broblemau posibl yn cael eu nodi a'u datrys yn amserol.

31. Mae ISA 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd lechyd ar 6 Mehefin 2013.
32. Nododd fy adroddiad fod amryw o gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol drafft wedi'u cywiro gan reolwyr. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a amlinellir yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Roedd angen gwneud newidiadau sylweddol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft i adlewyrchu'n ddigonol y materion sy'n tanseilio gwaith llywodraethu effeithiol y Bwrdd lechyd	Aeth y Bwrdd lechyd ati yn rhagweithiol i ddrafftio fersiynau cynnar o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ond ni pharatowyd y fersiwn ddrafft derfynol tan 21 Mai 2013. Roedd y drafft terfynol yn gofyn am newidiadau sylweddol i adlewyrchu'n ddigonol y materion sy'n tanseilio gwaith llywodraethu effeithiol y Bwrdd lechyd sy'n deillio o adolygiad AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau llywodraethu. O ganlyniad, cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei ddiwygio a phenderfynais ei fod wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru.
Ymdrin â threfniadau prydlesu etifeddol a drosglwyddwyd o gyrff rhagflaenol	Daeth adolygiad o leihad mewn gwerth Ysgol Nyrsio Fron Heulog ym Mhrifysgol Bangor i'r casgliad bod tir ac adeiladau y nodwyd eu bod yn werth £5.5 miliwn wedi'u cynnwys yn anghywir yn y gofrestr asedau sefydlog gan nad oeddent yn eiddo i'r Bwrdd lechyd. O ganlyniad, cafodd gwerth y tir a'r adeilad a briodolwyd i'r ased ei leihau i ddim, gan ei dileu o'r fantolen i bob pwrpas. Nodais fod y lleihad yn adlewyrchu'r trefniadau prydlesu rhad a wnaed ym 1994 rhwng Prifysgol Bangor ac Awdurdod lechyd Gwynedd (fel yr ydoedd ar y pryd). Gan ei fod yn fater etifeddiaeth, ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael i gefnogi sail y trefniadau prydlesu a'r incwm cysylltiedig o £210,000 a delir yn flynyddol i'r Bwrdd lechyd gan Brifysgol Bangor. Deuthum i'r casgliad nad oedd y datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, ond argymhellais y dylai'r Bwrdd lechyd adolygu sut mae'n ymdrin â Fron Heulog a threfniadau etifeddiaeth eraill yn y cyfrifon i sicrhau eu bod yn cael eu datgelu'n llawn ac yn briodol yn natganiadau ariannol 2013-14 a thu hwnt.

Mater	Sylwadau'r archwilyr
Cafodd Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd lechyd eu torri ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn	Rwy'n fodlon na chafodd yr achosion hyn o dorri'r Cyfarwyddiadau, boed yn unigol neu gyda'i gilydd, effaith andwyol ar y farn ar reoleidd-dra. Fodd bynnag, nodais bryderon bod methu â chydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau yn tanseilio effeithiolrwydd gwaith llywodraethu'r Bwrdd lechyd, er fy mod yn cydnabod bod yr achosion hyn o dorri'r Cyfarwyddiadau wedi'u canfod gan reolaethau'r Adran Gyllid. Mae gwybodaeth fanylach am yr achosion o dorri'r Cyfarwyddiadau a nodwyd ym mharagraffau 34 a 35 .

33. Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:
- **Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan** ar gyfer 2012-13 – deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ar 31 Mawrth 2013 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi i safon dda, yn unol â'r amserlenni gofynnol ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol o ystyried y newidiadau yn y gofynion adrodd ar gyfer 2012-13 a'r oedi cyn cyhoeddi canllawiau gan Drysorlys Ei Mawrhydi.
 - **Datganiadau Ariannol Cryno ac Adroddiad Blynyddol** ar gyfer 2012-13 – deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol llawn yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau helaeth.
34. Paratowyd datganiadau ariannol elusenol 2012-13 drafft y Bwrdd lechyd ym mis Mai 2013. Roedd paratoi'r datganiadau ariannol drafft yn gynnar yn adeiladu ar y trefniadau cau cynnar a sefydlwyd gan y Bwrdd lechyd y flwyddyn flaenorol. Rhoddais farn ddiamedod ar y datganiadau ariannol elusenol ar 13 Medi 2013, ar ôl derbyn llythyrau cadarnhau allanol a gyflwynwyd yn hwyr ym mis Awst 2013.

Roedd gan y Bwrdd lechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod yna rai meysydd i'w gwella ac er bod ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi'u torri ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn

35. Yn dilyn fy adolygiad o'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd a ddarperir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, deuthum i'r casgliad bod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn bodloni Safonau Archwilio Mewnol 2009 ar gyfer y GIG yng Nghymru a bod angen gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd allweddol er mwyn sicrhau cysondeb pellach. Mabwysiadwyd y Siarter Archwilio Mewnol newydd gan y Pwyllgor Archwilio ar 6 Rhagfyr 2012 ac mae datblygiadau eraill a gynlluniwyd eisoes ar waith i wella ymhellach y gwasanaeth a ddarperir i sefydliadau ieuchyd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys paratoi Llawlyfr Ansawdd Archwilio Mewnol ar gyfer Cymru gyfan.

-
- 36.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i gyflawni yn cefnogi barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol. Nid yw hyn yn cyfrif fel asesiad Archwilio Mewnol o dan Safonau Archwilio Mewnol newydd y Sector Cyhoeddus (PSIAS). O dan PSIAS (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013), mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o'u trefniadau Archwilio Mewnol bob pum mlynedd. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r gwaith a gyflawnir gan dîm archwilio allanol er mwyn dibynnu ar waith Archwilio Mewnol neu ennyn sicrwydd o'r gwaith hwnnw.
- 37.** Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012-13, nododd y gwasanaeth Archwilio Mewnol y gall y Bwrdd Iechyd gymryd sicrwydd cyfyngedig bod trefniadau i sicrhau bod llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u cynllunio'n addas ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd Archwilio Mewnol un farn 'dim sicrwydd' ac amryw o adroddiadau 'sicrwydd cyfyngedig' a effeithiodd ar ei farn gyffredinol ar gyfer y flwyddyn. Nodwyd meysydd i'w gwella o ran cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, trefniadau Rheoli Risg – cyflawni'r Strategaeth Rheoli Risg, Hyfforddiant Statudol a Gorfodol a Gwasanaethau Preswyl Cymunedol Ychwanegol. Ar gyfer y systemau ariannol allweddol, fodd bynnag, cadarnhaodd Archwilio Mewnol fod system gymharol gadarn o reolaeth fewnol ar waith.
- 38.** Yn ystod y flwyddyn, deuthum yn ymwybodol o amryw o ymrwymïadau gwariant a oedd yn ymddangos eu bod yn torri Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd, yn dilyn cyflwyno polisi 'Dim Archeb Brynu: Dim Tâl' fel rhan o waith y Bwrdd Iechyd i gryfhau ei drefniadau ariannol yn raddol.
- 39.** O ganlyniad, cynhaliais ymchwiliad ar y cyd gyda Gwasanaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gais Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi torri gofynion ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer gwariant o £96,639.20. Roedd hyn yn cwmpasu tri chyflenwr gwasanaethau cymorth ac ymgynghori allanol. Yn ogystal, fel rhan o'r broses o ymgynghori ar y newidiadau i'r gwasanaethau, nododd archwilwyr un chyflenwr lle'r oedd y Prif Weithredwr wedi awdurdodi defnyddio gwasanaethau'r chyflenwr heb broses briodol. Yn ogystal, roedd y Bwrdd Iechyd yn agos at dorri trothwy caffael cyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer un contract ond, mewn ymateb i'm hadroddiad, cadarnhaodd na fyddai'r chyflenwr yn cyflawni unrhyw waith pellach er mwyn osgoi croesi'r trothwy. Derbyniodd rheolwyr y Bwrdd Iechyd pob un o'm hargymhellion ar gyfer cryfhau trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a byddaf yn bwrw golwg ar y cynnydd yn 2014.

Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod rhai gwendidau yn y systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt

40. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Cododd nifer o faterion manwl o'm gwaith archwilio ariannol, a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Cyfarwyddwr Cyllid ym mis Medi 2013.
41. Yn arbennig, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud nifer fawr o ordaliadau cyflogres i weithwyr cyflogedig yn ystod y flwyddyn (cyn-weithwyr a gweithwyr presennol). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i leihau hyn ymhellach. Yn ogystal, mae lefel y gordaliadau cyflogres yn cael ei monitro'n rheolaidd gan reolwyr y Bwrdd Iechyd a'i hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud wrth y Pwyllgor Archwilio ei fod yn gweithio'n rhagweithiol gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddatrys y problemau sy'n arwain at y gordaliadau cyflogres a lleihau unrhyw gyfnodau ad-dalu.
42. Yn ogystal, nododd Archwilio Mewnol amryw o wendidau yn y systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt yn barhaus. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu i reoli'r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn ac mae'r Pwyllgor Archwilio'n craffu ar gynnydd yn rheolaidd.

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13, ond dim ond o ganlyniad i gyllid anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a mecanweithiau eraill, gan gynnwys

43. Er gwaethaf y pwysau ariannol sylweddol, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2012-13. Ar ôl rhagweld diffyg o filiynau o bunnoedd gydol y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2013, tanwariodd y Bwrdd Iechyd £5,000 yn erbyn ei derfyn adnoddau terfynol ar gyfer 2012-13, sef £1.257 biliwn. Rwy'n gwneud sylwadau pellach ar reolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd yn [Adran 2](#).

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus

- 44.** Mae gen i ofyniad statudol i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Rwyf wedi cyflawni amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at fantoli'r gyllideb;
 - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd trwy gynnal adolygiad o lywodraethu ar y cyd ag AGIC, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, a'm gwaith ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig, gyda phwyslais arbennig ar lywodraethu ansawdd a chadernid trefniadau ar gyfer asesu profiad cleifion/defnyddwyr; a
 - gwaith penodol ar y defnydd o adnoddau mewn perthynas â phresgripsiynu gofal sylfaenol, a pherfformiad yn erbyn targedau gwasanaeth allweddol ar gyfer effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaethau a mynediad i wasanaethau.
- 45.** Mae prif ganfyddiadau'r gwaith hwn wedi'u crynhoi o dan y penawdau canlynol.

Ni fydd y Bwrdd Iechyd yn mantoli'r gyllideb yn 2013-14 oni bai bod camau sylfaenol yn cael eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol

Y llynedd, er bod y Bwrdd Iechyd wedi mantoli'r gyllideb yn 2012-13, nodais nad oedd y dull a fabwysiadwyd yn gynaliadwy, gydag arbedion gwirioneddol o £49.1 miliwn wedi'u cyflawni o gymharu â tharged o £74.5 miliwn

- 46.** Mae'r GIG yng Nghymru wedi wynebu heriau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda setliadau arian gwastad a mwy o alw am wasanaethau. Cafodd proses pennu cyllideb y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13 ei gohirio, roedd yn broses hirfaith ac ni lwyddodd i nodi gostyngiadau cost digonol er mwyn darparu cyllideb gytbwys a chytunedig erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

-
- 47.** Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei darged ariannol ar gyfer y flwyddyn, ar ôl derbyn cyllid refeniw ychwanegol o £15 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2012. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gadw ei wariant yn 2012-13 o fewn ei derfyn adnoddau blynyddol ar ôl derbyn ei gyfran o £15 miliwn o'r £83 miliwn o gyllid ychwanegol a ddarparodd Llywodraeth Cymru i GIG Cymru yn ystod y flwyddyn i'w alluogi i reoli'r pwysau ar y gwasanaethau a chynnal ansawdd y gofal. Bu'r Bwrdd Iechyd yn monitro ac ailasesu ei sefyllfa ariannol a'i ragolygon ariannol gydol y flwyddyn hefyd, gan sicrhau arbedion o £49.1 miliwn (yn erbyn y £74.5 miliwn sy'n ofynnol). Er mai dyma'r lefel uchaf o arbedion a gyflawnwyd gan unrhyw fwrdd Iechyd yng Nghymru yn 2012-13, dim ond £35 miliwn o'r arbedion oedd yn rheolaidd ac ni chafodd tua £25.4 miliwn o'r arbedion a dargedwyd eu cyflawni. Roedd rhai o'r targedau arbed costau'n afrealistig ac uchelgeisiol ac nid oeddent wedi'u cysylltu'n glir â chynlluniau gweithlu a chapasiti neu ddarparu gwasanaethau. Yn ogystal:
- roedd y gostyngiadau cost a nodwyd fel rhan o'r broses pennu cyllideb yn annigonol i gau'r bwlch ariannol yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ei ragweld;
 - rhoddodd y Bwrdd Iechyd nifer o fentrau ychwanegol ar waith er mwyn cyflawni cydbwysedd ariannol, gan gynnwys nodi 'cynlluniau arbedion gweithredol' a oedd yn cwmpasu meysydd sy'n gyffredin i'r Grwpiau Rhaglenni Clinigol, ond nododd Archwilio Mewnol fod y cynlluniau hyn yn peryglu'r gwaith cyffredinol o gyflawni targedau arbedion gan eu bod yn dyblygu cynlluniau Swyddogaethau Cymorth Corfforaethol a Grwpiau Rhaglenni Clinigol mewn rhai achosion; a
 - nodwyd bod £14.1 miliwn o'r gostyngiadau cost yn anghylchol, gan gynnwys enillion damweiniol ac enillion cyfrifyddu technegol, ac nid ydynt yn cynrychioli dull cynaliadwy o leihau costau'r sefydliad.
- 48.** Oherwydd y pryderon ynglŷn â threfniadau atebolrwydd y Bwrdd Iechyd a gallu ei drefniadau rheoli a llywodraethu i fynd i'r afael ag anawsterau rheoli ariannol, comisiynwyd dau adolygiad allanol ar wahân ar y Bwrdd Iechyd yn ystod 2012. Nododd y ddau adolygiad fod heriau ariannol y Bwrdd Iechyd yn cael eu gwaethygu'n sylweddol oherwydd nad oes cynlluniau arbed digonol yn cael eu nodi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ac wedyn bod targedau arbedion yn cael eu tangyflawni.

Nid yw'r arbedion cost a ragwelwyd yn cael eu cyflawni ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £9 miliwn ar ddiwedd 2013-14, er iddo dderbyn £26 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

49. Mae rhagolygon ariannol y Bwrdd Iechyd yn 2013-14 a thu hwnt yn tynnu sylw at heriau nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen er mwyn mantoli'r gyllideb yn y dyfodol. Aethpwyd ati i gynllunio'r gyllideb yn fanwl, a hynny'n amserol, gyda'r bwrdd yn cymeradwyo Cynllun Ariannol 2013-14 ym mis Mawrth 2013 ond, fel yn 2012-13, bu oedi sylweddol cyn cael sêl bendith deiliaid cyllidebau i'w cyllidebau ar gyfer 2013-14, gyda phump o'r 23 o gyllidebau Grwpiau Rhaglenni Clinigol a chorfforaethol heb gael eu cytuno'n derfynol o hyd. Cafodd parodrwydd y Bwrdd Iechyd i dderbyn cyllidebau 'sy'n cynnwys cafeatau' ei feirniadu'n hallt gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad dyddiedig Rhagfyr 2013¹, ac mae'r arfer gwael hwn yn tanseilio gallu prosesau dyrannu cyllideb, monitro ariannol ac atebolrwydd mewnol y Bwrdd Iechyd i weithredu'n effeithiol.
50. Yn ôl y Cynllun Ariannol, yr her ariannol ar gyfer 2013-14 fyddai £78.05 miliwn (sef 6.5 y cant o gyllideb 2013-14) er mwyn cyflawni ei derfyn adnoddau blynyddol ar gyfer 2013-14. Ddiwedd mis Medi, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o £29.0 miliwn. Dylai cyfran y Bwrdd Iechyd, sef £26 miliwn, o gyllid canol blwyddyn ychwanegol Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd ym mis Hydref 2013 fod wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r diffyg tebygol hwn. Fodd bynnag, adroddodd y Bwrdd Iechyd ar 30 Tachwedd 2013 ei fod yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o £9.0 miliwn.
51. Aeth y Bwrdd Iechyd ati i ailddatgan ei sefyllfa ariannol ar ôl derbyn cyllid canol blwyddyn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gyda chyfanswm diwygiedig o orwariant hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn o £7.7 miliwn ar 30 Tachwedd 2013. Mae'r Bwrdd Iechyd ar ei hôl hi o ran lleihau costau fel yr oedd wedi bwriadu ac mae'n parhau i adrodd diffyg wedi'i gynllunio ar ddiwedd y flwyddyn. Hyd yma, mae arbedion sy'n rhyddhau arian parod o £25.7 miliwn wedi'u sicrhau o gymharu â'r gwerth £39.84 miliwn o arbedion a nodwyd. Mae pwysau ariannol sylweddol o hyd yn y Grwpiau Rheoli Clinigol Meddygaeth Sylfaenol, Cymunedol ac Arbenigol, Llawfeddygaeth a Deintyddiaeth a Gwasanaethau Menywod.
52. Bydd angen cryn waith i'w wneud i gyflawni'r Cynllun Ariannol yn y tri mis sy'n weddill o flwyddyn ariannol 2013-14. I helpu i wneud hyn, penodwyd Deloitte gan y Bwrdd Iechyd i gynnal adolygiad yn Hydref 2013 i ganfod cyfleoedd newydd i arbed arian. Mae'r themâu a nodwyd gan adolygiad Deloitte yn cael eu hasesu gan y Bwrdd Iechyd er mwyn deall y gwelliannau y gellir eu gwneud. Mae camau gostwng costau ychwanegol yn cael eu cymryd hefyd i ganfod rhagor o arbedion, fel darparu cymorth gweithdroi ychwanegol i'r Grwpiau Rhaglenni Clinigol a'r Bwrdd Cyflawni, ond mae cryn berygl na fydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei Gynllun Ariannol ar gyfer 2013-14.

¹ Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Rhagfyr 2013

Mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn y tymor canolig yn anodd iawn ac mae nifer o heriau sylweddol yn wynebu'r Bwrdd Iechyd os yw am sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2014-15 a 2015-16

53. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Bwrdd Iechyd hyd at 2015-16 yn rhagweld bwlch ariannol o 2013-14, sy'n tyfu i fwy na £160 miliwn erbyn 2015-16. Mae hyn yn dangos heb os nac oni bai nad yw model gwasanaeth cyfredol y Bwrdd Iechyd yn gynaliadwy yn ariannol o fewn yr amgylchedd ariannu arian gwastad sy'n bodoli yn y GIG yng Nghymru, ac mae angen gweithredu ar frys i symud y sefydliad i sefyllfa ariannol fwy gynaliadwy a mwy sefydlog.
54. Un o'r pethau cyntaf y mae angen i'r Bwrdd Iechyd ei wneud yw rhagor o waith i integreiddio'n llawn a chyflawni cynlluniau gwasanaeth, cynlluniau ar gyfer y gweithlu a chynlluniau ariannol. Er bod y Cynllun Gweithredol presennol yn cyfeirio at ddull integredig, nid yw cynlluniau unigol bob amser wedi'i hintegreiddio'n llawn neu'n fforddiadwy mewn gwirionedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn paratoi Cynllun Gweithredol tair blynedd newydd ar gyfer Ebrill 2014-2017. Adeg gwaith maes yr Asesiad Strwythuredig, roedd braidd yn amwys am beth fydd effaith unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth o ran canlyniadau, niferoedd staff, rolau a chyfrifoldebau staff, a chost arbedion.

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyrraedd ei darged ariannol cyfalafol ar gyfer 2012-13, ond roedd y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi adrodd ar gyfleoedd i wella ymhellach sut roedd cynllun cyfalaf Ailwampio Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei reoli

55. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei darged ariannol cyfalafol ar gyfer 2012-13, ac yn wahanol i'r byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, nid oedd arno angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wrth i'r flwyddyn ariannol ddirwyn i ben.
56. Cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o gynllun cyfalaf Ailwampio Ysbyty Glan Clwyd gan ystyried nifer o themâu yn cynnwys trefniadau llywodraethu, trefniadau cynllunio gwasanaethau, a threfniadau rheoli costau. Nododd y gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o feysydd i'w gwella er mwyn cryfhau ei drefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun cyfalaf. Roeddent yn cynnwys pa mor aml roedd Bwrdd y Rhaglen yn cyfarfod ac adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a chryfhau trefniadau monitro ac adrodd ar gostau, er y cydnabuwyd bod y Bwrdd Iechyd a'r Cynghorydd Costau wedi mynd i'r afael â hyn yn y cyfamser.

Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o faterion sylfaenol sydd angen eu datrys er mwyn cryfhau ei drefniadau llywodraethu

Roedd fy adolygiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, yn tynnu sylw at bryderon sylfaenol ynghylch trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd

57. Ym mis Mehefin 2013 cyhoeddais adroddiad ar y cyd ag AGIC, *Trosolwg o Drefniadau Llywodraeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr* (ein hadolygiad ar y cyd²).

Yr adolygiad ar y cyd oedd penllanw pryderon cynyddol dros y 12 mis cynt ac roedd yn nodi nifer o bryderon sylfaenol ynghylch trefniadau llywodraethu a strwythur cyfundrefnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn llesteirio ei allu i nodi problemau posibl mewn perthynas ag Ansawdd a Diogelwch gofal cleifion. Yn arbennig, gwelsom y canlynol:

- Bod angen gwella'r ffordd roedd y bwrdd yn gweithredu fel ei fod yn gallu craffu a gwneud penderfyniadau'n fwy effeithiol.
- Nad oedd trefniadau a gweithdrefnau llywodraethu yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r 'blwch rhwng y ward a'r bwrdd', a hyd yn oed yn cyfrannu ato o bosibl; un enghraifft oedd yr ymchwiliadau i'r achosion o *Clostridium Difficile* yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd yr ymchwiliadau hyn yn tynnu sylw at anghysonderau o ran sut roedd gwahanol rannau o'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i gofnodi, canfod ac adrodd ar farwolaethau lle'r oedd *C. Difficile* yn ffactor sylfaenol neu gyfrannol.
- Bod problemau gyda strwythur cyfundrefnol y Bwrdd Iechyd, sy'n seiliedig ar Grwpiau Rhaglenni Clinigol, wedi bod yn amlwg ers peth amser o ganlyniad i'r diffyg cydbwysedd rhwng maint y gwahanol Grwpiau a'r gwendidau o ran cysylltiadau rhwng y Grwpiau, safleoedd ysbyty daearyddol a'r tîm gweithredol; roedd gwendidau yn y trefniadau i ddwyn Grwpiau Rhaglenni Clinigol i gyfrif wedi gwaethygu'r rhain.
- Bod effeithiolrwydd y bwrdd wedi'i beryglu'n sylweddol gan rwyg yn y berthynas waith rhwng rhai o uwch arweinwyr y sefydliad. Roedd diffyg cydlyniant yn y ffordd roedd cyfarwyddwyr gweithredol yn cydweithio, a phryderon ehangach am sefydlogrwydd a gallu'r tîm gweithredol yn sgil trosiant staff ac absenoldeb oherwydd salwch.
- Gan nad oedd cynigion clir ar gyfer ffurf gwasanaethau aciwt yn y dyfodol, roedd Bwrdd Iechyd yn ymdrin â phryderon ar hyn o bryd am ddichonoldeb rotas meddygol yn ei dri safle, a'r pryder go iawn nad yw model gwasanaethau cyfredol y Bwrdd Iechyd yn gynaliadwy yn glinigol nac yn ariannol.
- Bod y Bwrdd Iechyd angen mwy o allu gweithdroi i'w helpu i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd uchod.

² *Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu*, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
www.wao.gov.uk/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau

Gwnaeth y bwrdd gydnabod yn gyhoeddus hyd a lled yr heriau sy'n ei wynebu, a rhoddodd gynllun gweithredu ar waith gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein hadroddiad ar y cyd

- 58.** Cyhoedd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd eu bwriad i ymddiswyddo ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ac fe wnaeth y bwrdd dderbyn canfyddiadau'r adolygiad ar y cyd yn llawn ac yn gyhoeddus yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2013 a chymeradwyo cynllun gweithredu manwl i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Sefydlwyd tîm Cyflawni Llywodraethu ac Arwain i roi'r cynllun gweithredu ar waith, a chafwyd cymorth rheoli ac arwain ychwanegol gan gyrff eraill y GIG yng Nghymru i gefnogi'r broses newid cyn i Gadeirydd newydd ddechrau ar ei waith ym mis Hydref 2013. Yn ogystal, gwnaed penodiadau interim uwch eraill i gryfhau'r gallu cyfundrefnol.
- 59.** Er bod y cynllun gweithredu a baratowyd mewn ymateb i adroddiad yr adolygiad ar y cyd yn gynhwysfawr, mae cynnydd ar sawl un o'r materion sylweddol a nodwyd gan yr adolygiad wedi'i gyfyngu o ganlyniad i ansicrwydd am swydd y Prif Weithredwr. Fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei ddatrys yn ddiweddar a bydd angen i'r bwrdd fynd ati'n gyflym i recriwtio Prif Swyddog newydd.

Er bod rhai datblygiadau calonogol, mae nifer o faterion sylfaenol a heriau sylweddol y mae angen i'r sefydliad eu datrys o hyd. Oherwydd natur hollol sylfaenol y materion, rwy'n sylweddoli y bydd hyn yn cymryd amser.

- 60.** Rwyf wedi defnyddio fy ngwaith ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig i helpu i fesur y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i ymateb i rai o'r prif heriau a nodwyd yn yr adolygiad ar y cyd. Rwyf wedi gweld tystiolaeth o ddatblygiadau mewn perthynas gweinyddiaeth y bwrdd. Mae rhaglen datblygu'r bwrdd bellach ar waith, ac mae'n eiddo ar y cyd i aelodau annibynnol a swyddogion gweithredol. I gefnogi'r rhaglen mae strwythur newydd i agendâu cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau a blaenraglen ddiwygiedig. Mae rheolau sylfaenol ar gyfer ymddygiad a phapurau wedi'u cytuno, gyda rheolau newydd clir (sy'n cael eu cymhwyso) ar brydlondeb, cyfanrwydd, fformat a safonau papurau'r bwrdd a phwyllgorau. Mae'r tîm gweithredol wedi ymrwymo i sicrhau bod papurau'n cael eu dosbarthu mewn da bryd cyn cyfarfodydd fel bod modd craffu'n effeithiol, a bod yr holl bapurau ar gael ei aelodau'r bwrdd ar y fewnrwyd. Mae hyn yn dechrau dod i'r amlwg yn ansawdd papurau bwrdd, ac ansawdd gwell y trafod, craffu a herio yn fy arsylwadau diweddaraf. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn arddangos ymrwymiad clir i wella, ac mae wedi comisiynu adolygiad sylfaenol o strwythurau cefnogi.
- 61.** Ond gwelais fod rhai problemau sylweddol yn parhau o hyd. Yn arbennig, penodiadau dros dro yw nifer o'r rolau allweddol ar y bwrdd o hyd, a bydd angen rhaglen fwy hirdymor i ddatblygu'r bwrdd wrth i uwch arweinwyr newydd gael eu penodi i swyddi parhaol. Mae gallu aelodau annibynnol dan gryn bwysau, o ganlyniad i drosiant mewn rolau allweddol, ac ar gyfer yr her i ddod. Mae'r agenda Ansawdd a Diogelwch yn un helaeth a bydd angen amser i'w datrys yn llawn. Mae angen adolygu rhai prosesau rheoli hefyd. Er enghraifft, adeg fy ngwaith maes, nid oedd y cofnod o argymhellion archwilio yn cynnwys argymhellion ein hadolygiad ar y cyd ac mae angen mynd i'r

afael â chyd-leoli uwch arweinwyr er mwyn i'r tîm gweithredol allu gweithio mewn modd cydlynol. Parhau y gwna'r ddibyniaeth ar fideo-gynadledda yng nghyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau ac rwy'n pryderu nad yw hyn yn gydnaws â gwaith pwyllgor effeithiol.

62. Er bod gwybodaeth reoli yn parhau i ddatblygu, gyda mwy a mwy o wybodaeth fanwl (sy'n gwella o fis i fis), mae yna fylchau allweddol o hyd, yn enwedig mewn perthynas â gofal sylfaenol a gwasanaethau a gomisiynir. Mae cynlluniau i gau'r bylchau hyn yn 2014. Yn arbennig, mae adroddiadau rheoli yn parhau i ganolbwyntio ar esboniadau o broblemau yn hytrach na chamau gweithredu ar gyfer gwella.
63. Gwelodd fy nhîm gynnydd cadarnhaol mewn perthynas â materion gallu ac arwain, yn enwedig o ran meithrin gallu o amgylch y tîm gweithredol. Mae'r cyfrifoldebau gweithredol diwygiedig ar gyfer llywodraethu clinigol, pobl newydd a gallu ychwanegol yn yr uwch dîm rheoli, yn rhoi mwy o amser ar gyfer cyfrifoldebau allweddol ar lefel bwrdd, a bydd y cytundeb gyda Phrifysgol Bangor i gyd-benodi Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Gofal Iechyd newydd yn cynyddu gallu ymhellach ar ôl penodi.
64. Nodais gynnydd arbennig mewn perthynas â datblygu cynigion i ddiwygio mecanweithiau rheoli a sicrhau Ansawdd a Diogelwch. Mae digwyddiadau ymgysylltu â staff yn cael eu cynnal, gyda chynllun gweithredu clir sy'n deillio o'r arolwg staff, gyda'r nod o adolygu'r weledigaeth, ymrwymiad a gwerthoedd gyda staff. Mae negeseuon cychwynol gan y Prif Weithredwr dros dro a'r Cadeirydd newydd yn taro'r nodyn cywir o ran tryloywder ac ymrwymiad i gleifion.
65. Ond ychydig iawn o gynnydd a welais mewn perthynas â nifer o faterion sylfaenol eraill. Fel y soniwyd eisoes, roedd yr ansicrwydd maith am sefyllfa'r Prif Weithredwr wedi llesteirio cynnydd gyda materion gweithredol allweddol yn sylweddol. Mae'r adolygiad o'r strwythur rheoli clinigol neu Grwpiau Rhaglenni Clinigol wedi'i roi o'r neilltu nes penodi Prif Weithredwr newydd, ond mae angen egluro'r model o arweinyddiaeth glinigol ar fyrder. Ac er bod Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro wedi'i benodi, mae'r trefniadau rheoli safleoedd ysbyty yn rhai dros dro o hyd, ac adeg gwaith maes fy Asesiad Strwythuredig, nid oedd disgrifiadau nac amcanion swydd wedi'u cytuno ar gyfer rheolwyr safleoedd o hyd. Mae fy mhryderon ynghylch gallu ar lefel Grwpiau Rhaglenni Clinigol yn parhau, er gwaethaf cymorth 'gweithdroi gweithredol' yn y ddau Grŵp mwyaf. Mae'r cymorth Meddygaeth Sylfaenol, Cymunedol ac Arbenigol yn cyflawni rhai o'i amcanion ond ni wnaeth cymorth y Grŵp Llawfeddygaeth a Deintyddol gyflawni ei amcanion arfaethedig, ac mae bellach wedi'i dynnu'n ôl. Pryder sylweddol arall yw bod newidiadau i strwythurau rheolwyr canol o ganlyniad i ad-drefnu'r GIG yn 2009 heb gael eu cwblhau o hyd mewn rhai ardaloedd o'r Bwrdd Iechyd.
66. Diwygiodd y Bwrdd Iechyd ei fframwaith atebolrwydd ddechrau 2013, ond nid yw effaith y diwygiadau hyn yn gwbl amlwg a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd arddangos bod ei fframwaith atebolrwydd yn gweithio'n ymarferol yn y sefydliad drwyddo draw er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwelliannau gofynnol i drefniadau llywodraethu yn cael eu gwneud.

-
67. Parhau y gwna'r heriau sylweddol a nodwyd mewn perthynas â datblygu strategaeth gydlynol ar gyfer ffurf gwasanaethau ysbyty aciwt yn y dyfodol. Yn briodol ddigon, mae'r Strategaeth Gwasanaethau Acíwt wedi ehangu i fod yn Strategaeth Gwasanaeth Integredig. Fodd bynnag, mae'r amserlen wedi ehangu, gyda phenderfyniadau i'w gwneud ddiwedd 2014 a gweithredu yn 2015. Mae'r amserlen yn adlewyrchu'n rhannol y ffaith y byddai cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn rhy fuan ar ôl cyhoeddi'r adolygiad ar y cyd yn wrthgynhyrchiol, o ystyried effaith negyddol anochel yr adolygiad ar hyder rhanddeiliaid yn y Bwrdd Iechyd. Yn y cyfamser, mae heriau sylweddol yn parhau mewn perthynas â sefydlogrwydd clinigol ac ariannol y modelau gwasanaethau cyfredol.
68. Mae'r Cynllun Gweithredol tair blynedd cyfredol yn dangos rhywfaint o gynnydd ond amwys ydyw o hyd ynglŷn ag effaith y camau gweithredu arfaethedig o ran canlyniadau, niferoedd staff, rolau a chyfrifoldebau staff, a chost neu arbedion. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y bydd y cynllun tair blynedd newydd sy'n cael ei brofi gyda Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r bylchau hyn.
69. Mae'r newidiadau cymunedol a amlinellwyd ym *Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid* yn cael eu gweithredu, ond mae'r ffaith bod gwasanaethau cymunedol ychwanegol newydd yn cael eu cyflwyno'n araf yn ychwanegu at ddrwgdybiaeth rhai rhanddeiliaid allweddol. Mae'r bwrdd a'r uwch dîm arwain yn cydnabod yr angen i fagu hyder o'r newydd ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid allanol allweddol, yn enwedig ar adeg pan fo cynlluniau strategol yn amwys o hyd, ac mae gwaith wedi dechrau yn hyn o beth.
70. Mae fy ngwaith eleni wedi canfod hefyd fod bylchau allweddol yn parhau mewn rheolaethau mewnol, er bod tystiolaeth bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud. Cyfeiriais yn gynharach at achosion o weithredu'n groes i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a gafodd eu canfod a'u hymchwilio o dan y polisi 'Dim Archeb Brynu: Dim tâl'. Yn ogystal, nododd fy nhîm:
- bod gan bum Grŵp Rhaglen Glinigol 'gafeatau' ar eu cyllidebau o hyd; ac
 - ei fod yn hollol sicr bod cydymffurfiaeth â pholisïau allweddol yn cael ei hadrodd erbyn hyn, er nad yw rhai Grwpiau Rhaglenni Clinigol a swyddogaethau cymorth corfforaethol yn cydymffurfio'n dda iawn â pholisïau allweddol.
71. Nodaf fod y Bwrdd Iechyd wedi esblygu cynnwys ei gofrestr risgiau corfforaethol yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu cofnodi'n gywir, er enghraifft, mewn perthynas ag Obstetreg a Gynaecoleg yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw hidlo'r gofrestr risgiau corfforaethol yn golygu nad yw'r bwrdd yn gallu gweld risgiau pwysig a bod risgiau'n cael eu datgelu'n gyhoeddus fel sy'n briodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ei drefniadau i sicrhau dysgu o adborth yn annigonol, ac mae wedi dechrau datblygu ffordd ymlaen

72. Un ffocws arbennig fy ngwaith ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig yn 2013 ledled Cymru oedd y trefniadau oedd gan gyrff NHS ar waith i gasglu safbwyntiau cleifion a staff a dysgu ganddynt.
73. Mae gan y Bwrdd Iechyd amryw o fecanweithiau i gasglu adborth defnyddwyr gwasanaethau. Amryw o fecanweithiau, yn cynnwys arolwg Picker; defnyddio gwirfoddolwyr i gynnal arolygon urddas; cardiau sylwadau; nifer fach o fforymau cleifion (e.e. mamolaeth a chanser); ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau defnyddio methodoleg arolwg Gymru gyfan. Hefyd, mae trefniadau wedi'u newid i ddod â thimau profiad cleifion, cwynion a digwyddiadau ynghyd o dan un strwythur rheoli. Er bod hyn gyda'i gilydd yn cynrychioli corff cadarnhaol o waith, mae fy nhîm wedi canfod cyfleoedd i gryfhau trefniadau a'u gwneud yn fwy systematig. Nid oes cysylltiadau clir ar hyn o bryd rhwng y gwaith a amlinellir uchod a gwaith ehangach gan y Bwrdd Iechyd i ymgysylltu â'r gymuned. Nododd fy nhîm hefyd fod strategaeth profiad defnyddwyr gwasanaethau y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ddogfen ddrafft. Yn fwy cyffredinol, mae dadansoddi canfyddiadau a throngli rhwng ardaloedd yn digwydd yn ad hoc, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddangos yn gliriach bod gwasanaethau wedi newid o ganlyniad i ddysgu o adborth defnyddwyr.
74. Cafwyd tystiolaeth ddiweddar fod tueddiadau a chysylltiadau yn cael eu gwneud rhwng cwynion a digwyddiadau, ac mae'r trefniadau i gofnodi a rheoli cwynion bellach yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o safonau, ond mae ymgysylltiad meddygol yn y prosesau hyn yn amrywio. Yn ôl Cronfa Risg Cymru, mae prosesau wedi gwella o gymharu â llinell sylfaen wael ond prin yw'r dystiolaeth bod gwersi'n cael eu dysgu. Nodais fod gallu Grwpiau Rhaglenni Clinigol i gefnogi'r tîm bach canolog yn gyfyngedig iawn ac mae ansawdd (a phrydlondeb) ymatebion i gwynion a phryderon yn amrywio'n sylweddol. Gall y gwahanol raddau o ymgysylltiad meddygol â'r broses gwyno gyfrannu at oedi cyn ymateb. Dangosodd grwpiau ffocws fy nhîm gyda phob un o'r tair adran achosion brys fod modd datrys pryderon anffurfiol cleifion ar lefel tîm neu adran, ond bod eu datrys yn ehangach ar draws Grwpiau Rhaglenni Clinigol neu ar draws y sefydliad yn anodd iawn.
75. Er gwaethaf polisïau a systemau i adrodd am ddigwyddiadau, mae diffyg cydymffurfiaeth â phrosesau ac adolygiadau yn rhwystro'r sefydliad rhag gallu deall gwersi a sbarduno gwelliannau. Mae'r system Datix electronig ar waith, ac fe'i defnyddir i adrodd am ddigwyddiadau, ond mae staff yn sôn am broblemau gyda'r system yn cyrraedd 'terfyn amser', bod defnydd staff meddygol o'r system yn amrywio, ac adborth gwael ar gamau gweithredu neu gynnydd mewn perthynas â materion sy'n cael eu hadrodd. Nodais nad yw pob Grŵp Rhaglen Glinigol yn cydymffurfio â Datix neu brosesau rheoli risg; ac er bod y Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro wedi safoni'r dull o ddadansoddi gwraidd y broblem ac adolygu marwolaethau ledled y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar, roedd y prosesau'n amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd cynt.

-
- 76.** Gwelais fod angen gwella'r gwaith o fonitro cynlluniau gweithredu sy'n deillio o ddigwyddiadau ac adolygiadau, a phrin yr oedd gwersi'n cael eu lledaenu'n systematig ar draws y sefydliad. Gwelais dystiolaeth fod camgymeriadau'n cael eu hailadrodd. Er enghraifft, roedd strapiau arddwrn coll wedi arwain at gam-adnabod cleifion mewn digwyddiadau ar wahân, ac roedd hyn wedi cyfrannu at roi inswlin i glaf heb ddiabetes.
- 77.** Nid yw'r trefniadau prin ar gyfer ymdrin â phryderon staff yn effeithiol, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o ddiffygion ac yn bwriadu mynd i'r afael â nhw wrth weithredu'r polisi Cymru gyfan newydd. Mae'r gwendidau yn y polisi blaenorol yn dod i'r amlwg ym maes ymarfer, gyda mecanweithiau anffurfiol a rhai amgen yn cael eu defnyddio hefyd, ac ychydig iawn o waith sy'n cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth. Mae dibyniaeth ar y Grwpiau Rhaglenni Clinigol i adrodd i uwch staff a chadw cofnodion priodol ond nid yw hyn bob amser yn digwydd mewn ymarfer. Roedd hyn yn golygu nad oedd pob 'achos o chwythu'r chwiban' wedi'i gofnodi ar y gofrestr, ac efallai nad yw'n syndod nad oedd mecanwaith i gasglu themâu pryderon (ffurfiol ac anffurfiol) staff ac alinio gyda phryderon cleifion neu ddigwyddiadau neu waith gwella. Prin oedd y dystiolaeth o ddysgu yn dilyn digwyddiadau chwythu'r chwiban, ac mae canlyniadau'r arolwg staff yn awgrymu nad yw gwersi'n cael eu dysgu ac nad oedd staff yn ffyddiog y bydd pethau'n newid o ganlyniad i godi pryderon.
- 78.** Ar y cyfan, mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd ati'n fwy systematig i gasglu adborth defnyddwyr gwasanaethau a staff ac mae angen gwneud mwy i sicrhau dysgu a gweithredu o ganlyniad i hynny. Un rhwystr allweddol yw ymgysylltiad amrywiol staff meddygol â phrosesau, sy'n codi cwestiynau ynghylch sut mae atebolrwydd clinigol yn cael ei bwysleisio yn y Bwrdd Iechyd. Er mwyn i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r materion hyn, bydd angen iddo sicrhau ei fod yn neilltuo digon o adnoddau a gallu i ddadansoddi'r materion a themâu sy'n dod i'r amlwg mewn digwyddiadau, cwynion a phryderon, yn ganolog ac ar lefel y Grwpiau Rhaglenni Clinigol. Mae angen gwella hefyd y mecanweithiau ar gyfer rhoi adborth i staff ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd ganddynt.

Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau prosesau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd

- 79.** Ffocws arbennig arall fy ngwaith ar gyfer Asesiad Strwythuredig 2013 ledled Cymru oedd y trefniadau llywodraethu ansawdd cyffredinol yng nghyrff y GIG.
- 80.** Yn y gorffennol, o gymharu â rhai byrddau iechyd eraill, roedd y Bwrdd Iechyd yn amddiffynnol wrth ymateb i feirniadaeth neu her, ac er bod yr uwch arweinwyr bellach yn dangos ymroddiad clir i fod yn agored, bydd newid y diwylliant hwn yn cymryd amser. Mae rhai o'r sylfeini pwysig wedi'u gosod i gefnogi'r newid hwn, fel Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd; teithiau bwrdd o amgylch lleoliadau; ac urddas a pharch yn y gwaith. Mae'r mentrau 1000 o Fywydau a Mwy a'r ffrydiau gwaith cydweithredol ar raddfa fach, a phapurau bwrdd a phwyllgor sy'n hygyrch i'r cyhoedd wedi cael effaith dda.

-
81. Un peth pwysig yw bod y bwrdd yn cydnabod y gallai wneud mwy. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrzio Gweithredol yn arwain gwaith sy'n ceisio adolygu a gwella trefniadau llywodraethu Ansawdd a Diogelwch, ond mae llawer i'w wneud ac mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ganddo ddigon o allu i barhau â'r gweithgareddau hyn. Er enghraifft, nid yw teithiau aelodau'r bwrdd o amgylch lleoliadau yn digwydd mor aml nac yn denu cymaint o aelodau ag y maent mewn rhai byrddau ieuchyd eraill - hwyrach fod hyn yn adlewyrchu problemau gallu ar lefel y bwrdd. Enghraifft arall yw rheoli ac adrodd am risg ar lefel Grwpiau Rhaglenni Clinigol, maes sydd angen ei wella.
82. Gwelais dystiolaeth yn dod i'r amlwg fod trefniadau gweithio'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gwella, gan adeiladu ar waith a ddechreuwyd yn gynharach yn 2013. Fodd bynnag, mae'r adolygiad sylfaenol o strwythurau ei is-bwyllgorau a'i drefniadau rheoli ansawdd gweithredol yn parhau a bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2014.
83. Yn arbennig, yn ddiweddar cymeradwyodd y pwyllgor Ansawdd a Diogelwch raglen seiliedig ar risg newydd ar gyfer agendâu'r dyfodol, a fydd yn canolbwyntio ar faterion corfforaethol a chraffu ar y Grwpiau Rhaglenni Clinigol am yn ail fis. Y tro diwethaf i'm staff arsylwi ar y pwyllgor hwn, gwelwyd craffu gwell, herio cadarnhaol, dealltwriaeth dda o'r materion, a gwell rheolaeth o'r agenda. Mae'r trefniadau newydd sydd mewn golwg yn edrych yn addawol, ond mae angen rhagor o fanylion am strwythurau is-bwyllgorau i sicrhau bod yr holl brif risgiau wedi cael sylw, a rhoi sicrwydd llawn i'r pwyllgor, a'r bwrdd yn y pen draw. Mae cynigion ar gyfer Grŵp Gweithredol Clinigol yn gadarnhaol hefyd, er y bydd mynychu a chyfranogi yn hollbwysig i'w lwyddiant. Nodais hefyd fod bylchau'n parhau yn y sicrwydd a gafwyd gan Ansawdd a Diogelwch. Er enghraifft, nid yw'r wybodaeth a gafwyd gan yr Is-bwyllgor Effeithlonrwydd Clinigol yn rhoi datganiad cyffredinol o sicrwydd gan yr is-bwyllgor ac mae'n rhaid 'palu' trwy gofnodion i ganfod pa sicrwydd y gellir ei gymryd o waith yr is-bwyllgor. Mae'n werth nodi bod problemau tebyg wedi'u canfod yn y gorffennol yn y modd roedd yr is-bwyllgor Rheoli Heintiau yn gweithio, a bod y problemau hyn wedi cyfrannu at y methiannau ym maes rheoli'r rheolaeth o heintiau sydd wedi'u hadrodd yn gyhoeddus.
84. Yn fwy cadarnhaol, gwelais fod gwybodaeth Ansawdd a Diogelwch wedi gwella yn 2013 o ran bod ar gael, sut roedd yn cael ei chyflwyno, a manylder a chwmpas y wybodaeth, ond gellid triongli gwybodaeth yn well ac mae angen darparu rhagor o wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau gwelliannau pan ddaw problemau i'r amlwg.
85. Bellach mae adroddiad Ansawdd a Diogelwch clir sy'n cynnwys meincnodi o fewn Cymru a chymariaethau priodol o fewn y Bwrdd Iechyd ar lefel ysbytai a Grwpiau Rhaglenni Clinigol. Mae'r adroddiad ansawdd ar gael i'r cyhoedd bellach, ac mae'n cynnwys gwell gwybodaeth am reoli heintiau, sy'n ddatblygiad cadarnhaol. Er hynny, cefais hyd i fylchau yn y wybodaeth am ansawdd gwasanaethau a gomisiynir ac am wasanaethau sylfaenol a chymunedol, er bod bwriad i fynd i'r afael â hyn yn 2014.

86. Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol a gymeradwywyd ym mis Medi 2013 yn rhoi cyfle i adrodd i'r cyhoedd mewn ffordd agored a gonest. Mae cryn ymdrech wedi'i roi yn y Datganiad ac mae'n gadarnhaol bod sylw da i nifer o feysydd, ac er mor ffurfiol yw'r iaith, mae problemau a gwendidau yn cael eu nodi ochr yn ochr â meysydd perfformio gwell. Fel yn achos byrddau iechyd eraill, fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella ymhellach:

- Ni nodir 'fframwaith ansawdd' cyffredinol, er bod darparwyr sicrwydd gwahanol yn cael eu nodi'n foddhaol.
- Mae'r ddogfen yn debycach i adroddiad sicrwydd i reolwyr, yn hytrach na dogfen ar gyfer y cyhoedd. Yn arbennig, fel dogfen i'r cyhoedd, mae angen i'r adroddiad fod yn fyrrach ac yn fwy cryno. Gallai'r siartiau a'r iaith dechnegol fod yn ddryslyd i'r cyhoedd a gellid gwella'r crynodeb a gwneud y prif negeseuon yn fwy amlwg.
- Mae'r Datganiad yn cydnabod rhai meysydd lle gellid gwella perfformiad ond mae rhai byrddau iechyd lleol wedi bod yn fwy gonest wrth nodi'r meysydd lle na chafwyd llwyddiant a'r camau sy'n cael eu cymryd.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad arall wedi gweld bod lle i wella'r defnydd o adnoddau mewn meysydd penodol

Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn ystod o ddangosyddion ansawdd, hygyrchedd ac effeithlonrwydd yn amrywiol

87. Mae Aseiad Strwythuredig y flwyddyn hon wedi cynnwys dadansoddiad o ddata sydd ar gael yn ganolog ar dargedau gwasanaethau allweddol. Mae'r data wedi cael ei ddefnyddio i asesu i ba raddau mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi gwasanaethau o ansawdd da, darbodus a hygyrch i gleifion. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gymysg iawn, gyda pherfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn rhai dangosyddion o ansawdd gofal a gwasanaethau amserol a hygyrch yn gymharol wael. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i gyfeirio i sylw Llywodraeth Cymru mewn perthynas â nifer o dargedau Haen Un, gan fod y cyfartaleddau bras hyn yn celu amrywiadau sylweddol ar lefel ysbytai a safleoedd.

88. Mae mesurau effeithlonrwydd a chost o gymharu â chyrrff eraill y GIG yng Nghymru yn dangos perfformiad cymysg:

- mae rhai meysydd o berfformiad da ar fesurau effeithlonrwydd dewisol o gymharu â gweddill Cymru – er enghraifft, hyd arhosiad dewisol, pobl yn cael llawdriniaeth y diwrnod y cânt eu derbyn i'r ysbyty, cyfraddau llawdriniaethau dydd a chleifion allanol sydd heb fynychu eu hapwyntiad;
- meysydd eraill lle mae perfformiad yn nodweddiadol ar gyfer Cymru, fel gwariant y pen ar ofal iechyd, gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni ar yr ystâd, a chyfarpar sydd wedi dyddio; ac
- mae meysydd eraill lle mae angen gwella perfformiad, fel cyfraddau absenoldeb salwch, hyd arhosiad derbyniadau brys, a throsglwyddo cleifion o ambiwlansys.

-
- 89.** Nid yw mesurau ansawdd a phrofiad cleifion yn cymharu'n dda yn ôl perfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion ansawdd: bwndeli strôc, heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd a Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg.
- 90.** Gwelais hefyd fod mesurau amseroldeb a hygyrchedd yn gymysg gyda:
- perfformiad cymharol dda mewn perthynas â thargedau canser (er nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd targedau Cymru o hyd);
 - perfformiad adrannau achosion brys yn well na chyfartaledd Cymru o ran hygyrchedd, er gwaethaf nifer uwch o bobl yn ymweld â'r adrannau a phoblogaeth sy'n heneiddio (er, unwaith eto, nid ydynt yn cyflawni targedau Cymru); a
 - perfformiad gwael mewn perthynas â thargedau ar gyfer yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth, gyda chanran uchel yn aros mwy na 26 a 36 wythnos, ac mae perfformiad yn erbyn targedau hygyrchedd wedi dirywio'n gyffredinol ers 2009.
- 91.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo wella effeithlonrwydd gwasanaethau ac mae wedi comisiynu cymorth gan Deloitte i'w helpu gyda'i waith gynllunio. Yn arbennig, nododd yr adolygiad hwn y gallai arbedion effeithlonrwydd esgor ar arbedion sylweddol, wrth feincnodi yn erbyn y chwarter gorau yn y DU, a bydd gwella llwybrau cleifion yn sicrhau gwelliannau mewn ansawdd ac effeithlonrwydd. Yr her allweddol o'i flaen yw defnyddio'r wybodaeth hon drwy gynlluniau i sbarduno gwelliannau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda fyrdymor glir ar gyfer presgripsiynu gofal sylfaenol, gyda threfniadau'n darparu sail ar gyfer dull integredig ym mhob sector; fodd bynnag mae diffyg cynllun strategol mwy hirdymor yn cyfyngu ar y gallu i wella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd presgripsiynu gofal sylfaenol

- 92.** Er bod trefniadau cynllunio wedi darparu ffocws effeithiol ar gyfer anghenion gweithredol byrdymor, prin fu'r cynnydd o ran datblygu dull gweithredu strategol hirdymor mewn perthynas â phresgripsiynu gofal sylfaenol. O ganlyniad, nid yw cynlluniau cyflawni yn targedu meysydd effaith uchel yn ddigonol. Mae gan Grŵp Rhaglen Glinigol Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau Gynllun Gweithredol blynyddol sy'n nodi'r prif weithgareddau ar gyfer y flwyddyn, wedi'u rhannu yn ôl pum thema strategol leol allweddol o gynllun pum mlynedd y Bwrdd Iechyd. Ers ein gwaeth maes, mae'r Grŵp Rheoli Clinigol wedi cyhoeddi cynllun trosfwaol ar gyfer 2013-16. Maent yn cydnabod bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd a bod angen gwneud rhagor o waith er mwyn pennu cyfeiriad strategol hirdymor clir ar gyfer presgripsiynu gofal sylfaenol.
- 93.** Cafodd cyfrifoldebau staff yn y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn fuan ar ôl creu'r Bwrdd Iechyd yn 2009, ac mae gwaith yn parhau i helpu i sicrhau rheolaeth well o bresgripsiynu ar draws sectorau, er na fu unrhyw newid sylfaenol yn y modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Prif ffocws y tîm rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol yw gweithredu a chyflawni'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau a Gwasanaethau Ychwanegol Lleol, ond mae sut mae gweithgareddau'n cael eu blaenoriaethu a'u cyfarwyddo'n strategol yn llai eglur.

-
94. Mae atebolrwydd rheolwyr ar gyfer rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol yn glir ac mae trefniadau cyfundrefnol cyfredol yn darparu sail ar gyfer integreiddio pellach ar draws y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Er enghraifft, mae tri thîm presgripsiynu gofal sylfaenol, ar draws dwy sir, yn cysylltu ag ysbytai cyffredinol dosbarth ac ysbytai cymunedol lleol. Mae'r timau'n gweithio mewn 14 lleoliad gofal sylfaenol ar draws dwy sir. Yn ystod ein gwaith daeth yn amlwg bod gan feddygon teulu gryn feddwl o'r cymorth proffesiynol a gânt gan y timau presgripsiynu gofal sylfaenol, yn cynnwys lle mae'r cymorth yn cynnwys darparu addysg. Fodd bynnag, dywedodd staff y tîm presgripsiynu na allant neilltuo mwy o amser i'r math hwn o waith, er y byddent yn dymuno hynny. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystyried sut y gellir sicrhau mwy o ffocws ar weithio'n uniongyrchol gyda meddygon teulu a phractisau.
95. Mae cyfleoedd i gryfhau'r defnydd o adnoddau cyfredol er mwyn gwella ansawdd a chost presgripsiynu gofal sylfaenol. Enghraifft dda yw cyffurlyfr ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan sydd bron â chael ei gwblhau, gyda 75 y cant o feysydd allweddol wedi'u cwblhau o fewn dwy flynedd. Mae datblygu cyffurlyfr wedi bod yn gryn dasg, gan ddwyn ynghyd y trefniadau ar wahân a fodolai cynt ar draws tair ymddiriedolaeth. Er ei fod wedi cymryd amser i gyrraedd y cam hwn, llwyddodd y gwaith i ennyn cyfraniad cadarnhaol gan bob maes therapiwtig.
96. Y Bwrdd Iechyd lwyddodd i sicrhau'r gostyngiad mwyaf mewn gwariant ar bresgripsiynu yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac mae mewn sefyllfa dda o gymharu â rhai dangosyddion eraill. Er hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n gymharol wael yn erbyn nifer o ddangosyddion allweddol. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd i sicrhau gwelliannau o ran cost ac ansawdd ym maes presgripsiynu gofal sylfaenol. Er enghraifft, gwelodd fy nhîm gyfleoedd i arbed tua £690,000 ar bresgripsiynu generig pe bai'r Bwrdd Iechyd yn perfformio cystal â'r gorau yng Nghymru.
97. Un ffactor pwysig yw bod cyfradd presgripsiynu gwrthfotigau y Bwrdd Iechyd ymhlith yr uchaf yng Nghymru a bod meddygon teulu lleol yn presgripsiynu llai, o gymharu, o'r naw gwrthfotig mwyaf poblogaidd a ddefnyddir fel y driniaeth fwyaf priodol ar gyfer heintiau cyffredin a welir ym maes gofal sylfaenol. Mae angen dull sy'n cael ei dargedu fwy i ganfod defnydd uchel ac i addysgu presgripsiynwyr gofal sylfaenol. Bydd angen ystyried perfformiad cymharol y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â phresgripsiynu cyffuriau gwrthficrobaidd ochr yn ochr ag adolygiad ehangach gan arbenigwyr o reoli heintiau a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn y trafferthion gyda *C. Difficile*.
98. Yn ogystal, ychydig iawn o dystiolaeth a welodd fy nhîm o ddull cyson a thrwyadl o adrodd am adweithiau andwyol i gyffuriau a digwyddiadau yn ymwneud â meddyginiaethau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau cyson a pharhaus mewn perthynas â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio Technoleg a Rheoli Gwybodaeth blaenorol, er bod llai o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas ag argymhellion gwaith archwilio mewn meysydd eraill

99. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â phryderon ac argymhellion gwaith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol o ddarparu gwasanaethau. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol yn [Arddangosyn 2](#).
100. Mae fy nhîm wedi gweithio gyda staff y Bwrdd Iechyd i helpu rheolwyr y Bwrdd Iechyd i weithredu argymhellion archwiliadau'r blynyddoedd blaenorol drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnodd olrhain argymhellion archwiliadau allanol. Bellach mae adroddiadau byr am y cynnydd diweddaraf ar gael ym mhob Pwyllgor Archwilio ar gyfer y rhan fwyaf o argymhellion blaenorol. Bu fy nhîm yn adolygu'r adroddiadau hyn gan Grwpiau Rhaglenni Clinigol a swyddogaethau cymorth corfforaethol ar ofal heb ei drefnu a meddygon locwm ar wahanol adegau gydol y flwyddyn. Er bod fy ngwaith yn dangos rhywfaint o gynnydd cyfyngedig mewn sawl maes, mae angen cynnydd ar frys mewn meysydd sylweddol o hyd. Bydd fy nhîm yn parhau i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r adnoddau hyn yn 2014. Byddaf yn cynnwys adroddiad dilynol ffurfiol ar un maes lle nad yw'r Pwyllgor Archwilio'n cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd yn fy archwiliad 2014 ar-lein. Byddaf yn cwblhau fy ngwaith dilynol ar staffio ar wardiau a chleifion allanol yn gynnar yn 2014.

Arddangosyn 2: Cynnydd wrth weithredu argymhellion archwiliadau

Maes gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau allweddol archwiliadau
Trefniadau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth	<p>Gwelais fod trefniadau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn parhau i ddatblygu i gefnogi cyflawni gweithredol, arweinyddiaeth a llywodraethu, ac maent yn mynd rhagddynt yn dda. Fodd bynnag, mae cyfeiriad strategol yn cael ei lesteirio gan gynnydd araf gyda'r rhaglen genedlaethol, mynediad i gyfalaf a materion cyfundrefnol ehangach. Wrth ddod i'r casgliad hwn gwelais y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae gan yr adran flaenoriaethau a chynllun pum mlynedd, ond nid oes cysylltiad clir â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd. Yn rhannol, mae hyn yn gysylltiedig â diffyg strategaeth gyffredinol ar gyfer Technoleg a Rheoli Gwybodaeth.• Deuthum ar draws cynlluniau gweithredol da, gydag atebolrwydd clir i arweinwyr Technoleg a Rheoli Gwybodaeth ac mae trefniadau llywodraethu yn datblygu ac yn mynd rhagddynt yn dda.• Mae systemau etifeddol ar waith o hyd, gyda rhywfaint o waith rhesymoli, ond mae cynnydd pellach yn dibynnu ar y rhaglen genedlaethol a buddsoddiad mewn systemau newydd.

Maes gwaith dilynol

Arlwyo mewn ysbytai a maethiad cleifion

Casgliadau a chanfyddiadau allweddol archwiliadau

Mae fy nghanfyddiadau o'r adroddiad dilynol hwn yn fy arwain at y casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau mewn sawl maes ond nad oedd wedi ymateb yn ddigon cyflym ac mae nifer o'm hargymhellion yn dal i aros am sylw. O'r 20 argymhelliad a adolygwyd gan fy nhîm yn yr archwiliad dilynol hwn, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau pump yn llawn, ac mae 15 yn parhau i fod ar y gweill. Roedd fy ngwaith dilynol yn tynnu sylw at bum prif faes sy'n destun pryder - roeddent yn ymwneud ag amseroldeb ac effeithiolrwydd wrth ymateb i argymhellion:

- Yn 2011, nodais bryder arwyddocaol am ddiogelwch cleifion am nad oedd tymheredd y bwyd ar wardiau yn bodloni canllawiau oherwydd bod hen drolïau nad ydynt yn cadw'r bwyd yn gynnes yn cael eu defnyddio i gludo bwyd. Gallai'r mater hwn fod wedi cynyddu'r risg o wenwyn bwyd am fod bwyd wedi'i halogi â bacteria fel salmonela neu E. coli neu feirws fel norofeirws. Cymerodd y Bwrdd Iechyd ddwy flynedd i ymateb i'r mater brys hwn. Aethpwyd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad ym mis Ionawr 2013.
- Nid yw fy argymhellion yn cynnwys dyddiadau cau bob amser. Mae hyn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i fyrddau iechyd ymateb orau mewn ffordd sy'n integreiddio'r camau gofynnol mewn cynlluniau busnes lleol, fel bod adrannau a gwasanaethau yn gwbl gyfrifol am gamau gweithredu. Er hynny, aeth dwy flynedd heibio rhwng cyhoeddi'r adroddiad terfynol a'r adroddiad hwn, ac rwy'n disgwyl i bob camau gweithredu i unioni'r sefyllfa gael eu cymryd o fewn y cyfnod hwn.
- Arolygu a chraffu ar argymhellion a chamau gweithredu: yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, roedd angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r broses arolygu, er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i argymhellion rheoleiddwyr yn gyflym ac yn effeithiol.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mehfin 2013
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehfin 2013
Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan	Gorffennaf 2013
Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno	Medi 2013
Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Adroddiad Manwl	Medi 2013
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Elusen	Medi 2013
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Arlwyo mewn Ysbytai a Maethiad Cleifion	Mawrth 2013
Presgripsiynau Gofal Sylfaenol	Gorffennaf 2013
Creu Data Wrth Gefn – Diagnostig	Tachwedd 2013
Asesiad Strwythuredig	Rhagfyr 2013
Adroddiadau eraill	
Amlinelliad o Waith Archwilio 2013	Ebrill 2013
Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu – Adolygiad ar y Cyd gan AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru	Mehfin 2013
Ymchwiliad ar y cyd gan Archwilio Mewnol/Swyddfa Archwilio Cymru i afreoleidd-dra posibl wrth gaffael	Awst 2013
Gohebiaeth Medra	Medi 2014

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Orthopaedeg	Mai 2014
Adolygiad Dilydol Cleifion Allanol	Ebrill 2014
Adolygiad Dilydol Staffio Wardiau	Mai 2014
Codio Clinigol	Mehfin 2014
Nyrsio Cymunedol	Gorffennaf 2014

Atodiad 2

Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 ffi archwilio arfaethedig o £492,049 (excluding VAT). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr Amlinelliad.

Atodiad 3

Risgiau archwilio allanol

Roedd fy Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 yn nodi'r prif risgiau archwilio allanol ar gyfer 2013. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau ac yn nodi sut aethpwyd i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio ariannol	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Dyletswydd ariannol y Bwrdd lechyd yw cadw gwariant blynyddol o fewn y terfyn adnoddau sydd wedi'i bennu o flaen llaw. Bydd y targed statudol yn berthnasol ar gyfer refeniw a chyfalaf. Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau rheolaeth ariannol dda yn y cyfnod er mwyn cyrraedd ei dargedau ariannol ei hun ar gyfer 2012-13.	Bûm yn adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd a materion arwyddocaol yn ymwneud â'i sefyllfa ariannol. Deuthum i'r casgliad bod y Bwrdd lechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol ond mai dim ond oherwydd iddo gael cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru ac iddo gyflawni arbedion y llwyddodd i wneud hynny, er nad oedd y dull gweithredu hwnnw yn gynaliadwy.
Mae'r amserlen ar gyfer paratoi ac ardystio'r cyfrifon blynyddol yn parhau i fod yn dynn. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd gyflwyno trefniadau priodol ar gyfer paratoi'r cyfrifon a sicrhau bod digon o bapurau gwaith yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio yn brydlon.	Bûm yn adolygu'r cynllun cau i lawr ac yn asesu'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer paratoi'r cyfrifon a phapurau gwaith yn brydlon. Ni nodais unrhyw faterion i'w hadrodd.
Caiff y cyfrifon blynyddol eu crynhoi o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG. Rhaid bod gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth lawn o'r gofynion hyn, gan fod yn ymwybodol o newidiadau, a sicrhau bod risgiau a materion yn cael eu nodi a bod camau priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â nhw.	Bûm yn adolygu'r cyfrifon blynyddol yn erbyn gofynion IFRS a Llawlyfr Cyfrifon y GIG. Deuthum i'r casgliad bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r safonau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ym mhob ffordd berthnasol.
Ar 1 Mehefin 2012, cafodd swyddogaethau trysorlys y Bwrdd lechyd a oedd yn cael eu cyflawni yn Alder House a Chronfa Risg Cymru eu trosglwyddo i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Rhaid i'r Bwrdd lechyd roi cyfrif priodol am y trosglwyddo yn ei gyfrifon blynyddol.	Bûm yn adolygu'r broses o drosglwyddo swyddogaethau trysorlys y Bwrdd lechyd a Chronfa Risg Cymru i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Ni nodais unrhyw faterion i'w hadrodd.

Risg archwilio ariannol

Mae dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod rheolaethau cyfrifyddu a rheolaethau mewnl cadarn ar waith i sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon.

Mae angen trefniadau llywodraethu corfforaethol cryf er mwyn i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gweithdrefnau a threfniadau ar waith i reoli ei gyllid yn unol â'r canllawiau yn llawlyfr e-lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Gwaith a wnaed a'r canlyniad

Bûm yn adolygu cadernid cofnodion cyfrifyddu'r Bwrdd Iechyd a'r rheolaethau mewnl sydd ar waith i sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon. Ni welais unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnl y Bwrdd Iechyd, ond gwelais fod Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd wedi'u torri sawl gwaith yn ystod y flwyddyn. Roeddwn yn fodlon nad oedd unrhyw un o'r achosion o dorri'r Cyfarwyddiadau, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn cael effaith andwyol ar y farn am reoleidd-dra.

Bûm yn adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol i bennu a oeddent yn effeithiol o ran bodloni amcanion, sicrhau gwelliannau, cynnal gonestrwydd ac osgoi gwrthdaro mewn buddiannau. Ni nodais unrhyw faterion i'w hadrodd.



WALES **AUDIT** OFFICE

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk